




Y R EGLWYS  
YNG NGHYMRU



THE CHURCH  
IN WALES

ARCHESGOB CYMRU AC ESGOB LLANDAF, Y PARCHEDICAF DDR BARRY MORGAN  
ARCHBISHOP OF WALES AND BISHOP OF LLANDAFF, THE MOST REVEREND DR BARRY MORGAN

Annwyl Bennaeth

## Cynllun Llysgenhadon Gwych Comisiynydd Plant Cymru

Ni fu erioed gyfnod pwysicach i blant sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hawliau, wrth i'w gwybodaeth a'u dealltwriaeth ddatblygu, ac wrth iddyn nhw baratoi i wneud cyfraniad pwysig i'r gymdeithas yng Nghymru.

Mae gwaith Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, yn allweddol i ffyniant plant ledled Cymru ac mae hi'n awyddus i gydweithio'n agos ag ysgolion, gan helpu'r holl ddisgyblion i ddysgu am eu hawliau a rhoi gwybod iddi beth yw eu barn. Rwyf wedi amgáu llythyr gan Sally Holland sy'n sôn am rywfaint o'i gwaith gydag ysgolion.

Ers bron 10 mlynedd bellach, mae ysgolion cynradd ledled Cymru wedi bod yn rhan o'r cynllun Llysgenhadon Gwych llwyddiannus, ac yn rhannu eu barn â'r Comisiynydd. Rwyf wrth fy modd bod nifer o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru wedi bod yn rhan o'r rhaglen hon, a charwn eich annog i ystyried galluogi eich ysgol i ymuno â hi. Gall eich ysgol fod yn rhan o'r cynllun Llysgenhadon Gwych am ddim, a dod yn rhan o waith parhaus y Comisiynydd i gyflawni newidiadau cadarnhaol i fywydau plant yng Nghymru.

O dan y cynllun mae dau ddisgybl yn cael eu hethol gan eu cyfoedion i arwain y gwaith o hybu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a rôl y Comisiynydd Plant ymhlith eraill yn yr ysgol. Mae hefyd yn ofynnol bod Llysgenhadon yn cwblhau tasgau arbennig unwaith y tymor, ac yn casglu barn eu cyfoedion ar ystod eang o faterion er mwyn i'w barn lywio gwaith y Comisiynydd. Mae Llysgenhadon yn cael mynychu digwyddiadau hyfforddi am ddim, a bydd ysgolion sy'n ymuno â'r cynllun yn cael gwahoddiad iddynt.

I ymuno yn ystod y flwyddyn ysgol newydd, ewch i [www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk) neu [www.childcomwales.org.uk](http://www.childcomwales.org.uk) a nodwch eich manylion i dderbyn eich pecyn di-dâl ar gyfer eleni. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan, ond os bydd gennych chi ragor o gwestiynau, cysylltwch â swyddfa'r Comisiynydd ar 01792 765600.

Bydd Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth hefyd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynllun Llysgenhadon Gwych ac rwy'n gobeithio y byddwn ni'n gweld ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ar draws y wlad yn chwarae rhan weithredol yn y rhaglen ardderchog hon.

Yn olaf, carwn ddiolch i chi am eich gwaith parhaus i ddatblygu ein hysgolion Eglwysig ac am bopeth rydych chi a'ch staff yn ei wneud i gynnal ein plant wrth iddyn nhw gael eu meithrin a thyfu yn eu dysgu a'u dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol.

Yn gywir

Llys Esgob, Lawnt y Gadeirlan, Llandaf, Caerdydd CF5 2YE  
Llys Esgob, Cathedral Green, Llandaff, Cardiff CF5 2YE

☎ 029 2056 2400 📠 029 2056 8410 ✉ [archbishop@churchinwales.org.uk](mailto:archbishop@churchinwales.org.uk)